

## Cofion

- Estynnwn ein cydymdeimlad heddiw â Robert Roberts (Llanefydd) yn ei brofedigaeth o golli brawd. Gweddiwn y bydd y teulu oll yn adnabod nerth a chysur yr Arglwydd yn eu colled.
- Mae Elfed Davies (Saron) yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd, ond mae Robert Davies (Llansannan) bellach wedi symud i'r Inffirmari. Yn dal yno hefyd y mae William Jones (Llanefydd). Cyflwynwn y tri ohonynt, ynghyd â'u teuluoedd, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddant yn profi nerth a chynhaliaeth Duw ei hun yn ddiagon y dyddiau hyn.
- Cafodd Huw Edwards (Tanyfron) driniaeth i'w benglin yn ddiweddar a chofiwn hefyd am Elin Batty (Llansannan) sydd wedi cael anffawd i'w throed. Dymunwn wellhad buan iawn iddynt hwythau.
- Llongyfarchiadau i Ifor a Mari Lloyd (Llanfair) ar enedigaeth mab, Owen Gwynedd, ac i Huw a Ceri (Saron) ar eu dyweddiad. Dymunwn orau'r nef iddynt oll.

## Sasiwn Genhadol y Chwiorydd

Eleni, cynhelir Sasiwn Genhadol y Chwiorydd yn Llangefni ar ddydd Mercher, Mai 4ydd. Bwriedir trefnu bws i fynd draw yno. Os oes gennych ddi-ddordeb, rhowch eich enw i Mrs Helen Parry (550276) **erbyn Ebrill 27ain**, os gwelwch yn dda.

Bydd Mair (ar ran Chwiorydd y Fro) yn falch o dderbyn **cyfraniadau'r eglwysi tuag at y Sasiwn erbyn Ebrill 10fed** fan bellaf.

## I ddod

- Cyfarfod o **Gwrdd Chwarter** Annibynwyr Cyfundeb Gorllewin Dinbych a Fflint nos Iau, Mawrth 31ain am 7.00 yn Eglwys Crist, Abergele. Yn dilyn y materion busnes, ceir cyflwyniad gan y Parch. Casi M. Jones ar y cwrs 'Alpha'. Croeso cynnes i unrhyw un sydd â diddordeb i fynychu'r cyfarfod.
- **Cyfarfod Cymdeithasol Chwiorydd Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn Ffestri Capel Mawr, Dinbych nos Iau, Ebrill 14eg am 7.30. Y siaradwr fydd y Parch Emlyn Richards. Lluniaeth: £2

## Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair - ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536, neu i  
Aneurin - ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

## Eglwysi Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau

# Llais Bro Aled

Dydd Sul, 27<sup>ain</sup> Mawrth 2011

Ceisiadau gweddi i Celfyn (550274)  
neu Hafwen (813445) cyn nos  
Fawrth, os gwelwch yn dda.

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Croeso i oedfaon y dydd heddiw. Mae'r gwanwyn wedi cyrraedd (!) ac yn agor y drws i'r haf. Gobeithio i chi fwynhau ychydig o wres y gwanwyn yn ystod yr wythnos diwethaf yma. Diolchwn i Dduw am ei ffyddlondeb ac am iddo'n cynnal ni i weld diwrnod newydd a gwanwyn newydd.

Yn Oedfa'r Fro heno, byddwn yn adolygu'r gyfres y buom yn edrych arni y ddau fis diwethaf, sef saith dyweddiad Iesu amdano'i hun "Myfi yw...". Dyma nhw'r saith:

- ✦ Myfi yw **bara'r bywyd** – Iesu'n dweud amdano'i hun mai Ef fydd yn ein cynnal am byth ac na fydd newyn ar neb sy'n dod ato Ef.
- ✦ Myfi yw **goleuni'r byd** – Bu cymaint o sôn am drychinebau'r byd ac rydym eto mewn rhyfel. Mae gwir angen goleuni Iesu ar y byd i gyd a diolchwn fod goleuni Iesu yn gallu llewyrchu hyd yn oed yn y tywyllwch eithaf. Parhawn i weddio dros y rhai sydd wedi cael cymaint o golledion oherwydd y daeargrynfeydd ac ymchwydd y môr, a gweddiwn dros y rhai sydd ar bob ochr o'r gwrthdaro yn Libya.
- ✦ Myfi yw **drws y defaid** – Iesu ydi'r unig un hefo'r awdurdod i agor a chau drws y nefoedd. Diolchwn iddo bod drws y nefoedd yn parhau'n agored. Fel drws y gwanwyn yn agor i'r haf, mae'r Iesu yn ddrws i gyflawn adnabyddiaeth ohono – dyma ydi'r bywyd tragwyddol.
- ✦ Myfi yw'r **bugail da** – Iesu yn ein harwain trwy'r dyffrynnoedd tywyll i borfeydd gwelltog ac at y dyfroedd tawel.
- ✦ Myfi yw'r **atgyfodiad a'r bywyd** – Iesu'n dod i ganol ein profedigaethau ac yn wylo hefo ni ac yn dangos ei awdurdod dros angau yn atgyfodiad Lasarus.
- ✦ Myfi yw'r **ffordd, y gwirionedd a'r bywyd** – Dyma lle mae'r Iesu yn rhagori ar bawb a phopeth arall. Nid oes ond un ffordd at y Tad a diolchwn mai Iesu yw'r ffordd honno a bod gwahoddiad inni i gyd i gerdded ar hyd y ffordd yma.
- ✦ Myfi yw'r **wir winwydden** – Dyma ddarlun hyfryd o berthynas Iesu â'i bobl ac anogaeth daer yr Iesu ar i ni, ei ddisgyblion, aros ynddo gan mai trwyddo Ef yr ydym yn derbyn pob cynhaliaeth.

Gobeithio i chi gael blas ar y gyfres ac edrychaf ymlaen i gael eich ymateb yn yr oedfa heno. Cofiwn mai'r Iesu hwn yn holl ogoniant ei berson sydd wedi mynd i Galfaria trosom, ac edrychaf ymlaen, os Duw a'i myn, i rannu dros yr wythnosau nesaf ddyweddiadau Iesu ar y groes i'n paratoi at y Pasg.

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

Sul yma	• Cynhelir <b>Oedfa'r Fro</b> yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Ben Nuss, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
Llun	• Grwpiau <b>Adnabod</b> Aneurin, Elen a Mair yn cyfarfod am 8.00
Maw	• <b>Cyfarfod Gweddi'r Fro</b> yn Groes am 7.30
Mer	• Cyfarfod i aelodau'r <b>Tim Addoli</b> yn y Granar am 8.00
Iau	• <b>Cyfarfod Plant</b> yn Llansannan am 3.15. • <b>Cwrdd Chwarter</b> yn cyfarfod yn Eglwys Crist, Abergele.
Sul nesaf	• Cynhelir <b>Oedfa'r Fro</b> yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Elen Elias, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma	Bwriedir tynnu llun o holl aelodau Capel Cefn Meiriadog gyda'n cyn-weinidog <b>am 10.00</b> . Yna, bydd Meirion yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Meiriadog am 10.30, wedi i gynrychiolydd o'r Henaduriaeth gynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli <b>Capel Cefn Meiriadog</b> ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.
Sul nesaf	Bydd Dr Owain Edwards yn arwain oedfa yng Nghefn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang yn Llanfair <b>am 10.00</b> gyda Mrs Mairwenna Lloyd yn rhoi anerchiad. Bydd hefyd yn cynrychioli'r Henaduriaeth ac yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli <b>Capel Soar</b> ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

### Llansannan

Sul yma	Bydd y Parch Hywel Edwards yn arwain oedfa am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli'r eglwys ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.
Iau	Cinio'r Jangl am 12.00.
Sul nesaf	Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul y plant am 10.00 a'r oedolion am 11.10.

### Saron a Pheniel

Sul yma	Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli <b>Capel Peniel</b> ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
---------	--

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

Sul nesaf	Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli <b>Capel Saron</b> ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel a Saron am 10.00.
-----------	---

### Tanyfron a Nantglyn

Sul yma	Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Nantglyn am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli <b>Capel Nantglyn</b> ar y Pwyllgor Bugeiliol.
Sul nesaf	Bydd Steffan Morris yn arwain oedfa yn Nhanyfron am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli <b>Capel Tanyfron</b> ar y Pwyllgor Bugeiliol.

### Henllan a Groes

Sul yma	Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli <b>Capel Henllan</b> ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00.
Sul nesaf	Bydd Aneurin yn arwain oedfa gymun i'r daith yn Groes am 10.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli <b>Capel y Groes</b> ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 2.00, gyda phlant y ddwy eglwys yn cyfarfod <b>yn Henllan</b> .

### Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma	Bydd Meirion yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Ar ddechrau'r oedfa, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli <b>Capel Llanefydd</b> ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanefydd ac yng Nghefn Berain am 10.00.
Sul nesaf	Bydd y Parch Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 ac yn Llanefydd am 2.00. Ar ddechrau oedfa'r bore, bydd cynrychiolydd o'r Henaduriaeth yn cynnal pleidlais ddirgel er mwyn dewis dau/ddwy aelod (sydd ddim yn flaenoriaid) i gynrychioli <b>Capel Cefn Berain</b> ar y Pwyllgor Bugeiliol. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00. Bydd Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg â gwasanaeth y bore yng Nghefn Berain a'r oedolion am 2.00.